# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG

**Cynnig i ad-drefnu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood**

**Cau Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ac agor ysgol newydd a gynhelir a fydd yn gweithredu ar y ddau safle presennol tra bod adeilad newydd yn cael ei gymeradwyo a'i adeiladu.**

**Haf 2026**

## CYNNWYS


**A. OUTLINE OF ASSESSMENT** ..... **3**

A.1. Introduction ..... 3

**B. THE PROPOSAL** ..... **3**

**C. WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS** ..... **3**

C.1. The Goals ..... 3

C.2. Sustainable Development ..... 4

**D. ASSESSMENT AREAS** ..... **5**

**E. POTENTIAL IMPACTS** ..... **6**

E.1. Contribution to Well-being Goals ..... 6

**F. CONTRIBUTION TO SUSTAINABLE DEVELOPMENT** ..... **9**

**G. FLINTSHIRE'S WELL BEING OBJECTIVES ASSESSMENT (COUNCIL PLAN 2023-28)** ..... **11**

**H. EQUALITY & HUMAN RIGHTS IMPACT ASSESSMENT** ..... **12**

**I. ENVIRONMENTAL & BIODIVERSITY IMPACT ASSESSMENT** ..... **15**

**J. UN CONVENTIONS RIGHTS OF THE CHILD IMPACT ASSESSMENT** ..... **18**

**K. HEALTH IMPACT ASSESSMENT** ..... **19**

**L. POVERTY IMPACT ASSESSMENT** ..... **25**

**M. PROMOTION OF POSITIVE IMPACT** ..... **28**

**N. CONCLUSION** ..... **29**

# A. AMLINELLIAD O'R ASESIAD

## A.1. Cyflwyniad

Nod yr Asesiad Effaith Integredig (*yr Asesiad*) hwn yw nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl y prosiect a gynigir, ac amlinellu camau gweithredu y gellir eu rhoi ar waith er mwyn lliniaru unrhyw effaith a nodir.

Bydd yr Asesiad yn ystyried sut mae'r cynigion yn cyfrannu at nodau'r Cyngor dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a sut maent yn bodloni'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Bydd y ddogfen hefyd yn ymgorffori sawl asesiad unigol i ddarparu gwerthusiad cynhwysfawr o effeithiau posibl.

Lluniwyd yr Asesiad hwn fel dogfen ategol i'r Ymgynghoriad Statudol. Mae Asesiadau o Effaith yn ddogfennau gweithio a fydd yn cael eu diweddaru ar ôl ystyried gwybodaeth ac adborth o'r broses ymgynghori.

Y ffigyrau, yr ystadegau a'r deunydd y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon yw'r rhai mwyaf cywir sydd ar gael adeg ei pharatoi a'i chyhoeddi.

# B. Y CYNNIG

Mae Cyngor Sir y Fflint ('y Cyngor') yn cynnig ad-drefnu'r ddarpariaeth addysg yn ardal Saltney yn Sir y Fflint.

Bydd y cynnig yn cynnwys dwy elfen:

- Cau Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood, a'u huno ar eu safleoedd presennol.
- Agor ysgol gynradd newydd 1.5 dosbarth mynediad cyfrwng Saesneg. Bydd yr ysgol newydd yn defnyddio'r tir sydd eisoes ynghlwm ag Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ac Ysgol Gynradd Gatholig Rufeinig St Anthony, ac yn darparu ar gyfer 315 o ddisgyblion llawn amser a 30 o ddisgyblion meithrin llawn amser.

Gellir dod o hyd i fanylion llawn y cynnig yn y ddogfen Ymgynghori Statudol.

https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Proposal-To-Reorganise-Saltney-Ferry-C.P-And-Saltney-Wood-Memorial-C.P.aspx

# C. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

## C.1. Y Nodau

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae'r ddeddfwriaeth yn amlinellu 7 nod lles sy'n darparu gweledigaeth a rennir i gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithio tuag atynt, sef:




Ffigur 1: Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

## C.2. Datblygu Cynaliadwy

Mae egwyddor datblygu cynaliadwy hefyd wedi'i chynnwys yn y Ddeddf, sy'n golygu bod rhaid i'r Cyngor weithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion presennol yn cael eu bodloni heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain.

Mae 5 Dull o Weithio a all ddangos sut mae'r Cyngor wedi rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cyfranogi

Mae rhagor o wybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i'w gweld drwy ddilyn y ddolen hon https://futuregenerations.wales/cym/darganfod/cenedlaethaur-dyfodol-cymru/deddf-cenedlaethaur-dyfodol-2015/

## D.  MEYSYDD ASESU

Mae posib i unrhyw gynigion effeithio ar sawl maes, ac mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i bob un.

Mae’r asesiadau o effaith canlynol wedi’u cynnwys fel rhan o’r ddogfen hon er mwyn darparu gwerthusiad cynhwysfawr o effeithiau posibl:

- Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Yr Amgylchedd a Bioamrywiaeth
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn
- Iechyd a Lles
- Tlodi, ac
- Addysg a Sgiliau

# E. EFFEITHIAU POSIBL

## E.1. Cyfraniad at y Nodau Lles

| **Disgrifiad** | **Cyfraniad** |
|---|---|
| **Cymru Lewyrchus** | |
| Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang, ac felly'n defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn gymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd am waith, gan alluogi pobl i fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy sicrhau gwaith addas. | Bydd hyn yn parhau buddsoddiad y Cyngor dan Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Mae'r rhaglen yn fuddsoddiad hirdymor ar gyfer ysgolion a cholegau er mwyn eu datblygu'n ganolfannau dysgu a lleihau nifer yr adeiladau sydd mewn cyflwr gwael.<br><br>Bwriad y cynnig hwn yw cael gwared â dwy ysgol mewn adeiladau aneffeithiol a'u disodli gydag un ysgol a gaiff ei hadeiladu i fodloni'r safonau di-garbon net, sy'n golygu y bydd yn gwneud defnydd effeithlon o ynni ac adnoddau yn y broses adeiladu.<br><br>Cydnabyddir y gall amgylcheddau dysgu o ansawdd uchel gael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth addysg, drwy gynnig mannau diogel a llawn ysbrydoliaeth i'r disgyblion ddysgu, a fydd yn arwain at well cyfleoedd cyflogaeth.<br><br>Bydd yr adeiladwyr yn cael eu hannog i ddefnyddio masnachwyr o'r gadwyn gyflenwi leol pan fo hynny'n ymarferol bosibl. |
| **Cymru Gydnerth** | |
| Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cefnogi gwytnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid. | Mae adeiladau ysgol newydd yn cael gwared â phroblemau a chostau cynnal a chadw. Drwy ddylunio medrus, defnyddio deunyddiau modern a rhoi egwyddorion di-garbon net ar waith, caiff strwythurau eu hadeiladu mewn modd cynaliadwy a bydd problemau sy'n gysylltiedig â thanwyddau ffosil a newid hinsawdd yn cael llai o effaith arnynt. |

| Disgrifiad | Cyfraniad |
|---|---|
| | Mae bioamrywiaeth yn ystyriaeth ddylunio gref mewn unrhyw adeilad newydd, ac rydym yn gweithio gydag Adeiladwyr a'n tîm Bioamrywiaeth ein hunain i wella'r amgylchedd naturiol mewn unrhyw ddyluniad newydd.<br><br>Mae'r Cyngor bellach wedi adeiladu nifer o ysgolion newydd ar hyd a lled y Sir; rydym wedi cwblhau un campws ysgol i weithredu'n ddi-garbon net eleni, ac wedi cyrraedd camau olaf adeiladu ysgol Gymraeg sy'n gweithredu'n ddi-garbon net.  Mae gennym brofiad helaeth o ddatblygu ysgolion newydd o'r cysyniad gwreiddiol i'w hadeiladu, gan sicrhau eu bod yn gynaliadwy'n amgylcheddol ac yn darparu'r amgylcheddau gorau posibl ar gyfer ein dysgwyr. |
| **Cymru Iachach** | |
| Cymdeithas sy'n sicrhau'r lles corfforol a meddyliol gorau posibl i bobl, ac yn deall dewisiadau ac ymddygiad sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. | Bydd amgylchedd dysgu newydd a chyfoes yn meithrin plant a phobl ifanc, gan ddarparu noddfa a fydd yn helpu hyrwyddo iechyd meddwl da.<br><br>Bydd mannau allanol yn cael eu darparu a fydd yn galluogi'r ysgol i ddatblygu ac annog y plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol megis chwaraeon, yn ogystal ag ardaloedd i ryngweithio gyda'r byd naturiol.<br><br>Er ein bod yn deall y gall wynebu'r newidiadau hyn effeithio ar les y disgyblion, y staff a'r rhieni/gofalwyr yn y tymor byr, rydym wedi ymrwymo i ddarparu'r cyfleoedd gorau ar gyfer disgyblion yn awr ac yn y dyfodol. Mae cefnogi iechyd meddwl plant yn flaenoriaeth allweddol, ac os bydd y cynnig yn cael ei ddatblygu, byddwn yn cydweithio'n agos gydag ysgolion, teuluoedd a gwasanaethau arbenigol i sicrhau bod unrhyw bontio yn cael ei reoli â |

| Disgrifiad | Cyfraniad |
|---|---|
| | gofal, sensitifrwydd, a chefnogaeth briodol i bob dysgwr yn unol â pholisi lleol. |
| **Cymru sy'n Fwy Cyfartal** | |
| Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial, waeth beth fo'u cefndir na'u hamgylchiadau (gan gynnwys eu hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol) | Darparu amgylchedd addysg cyfoes a chynhwysol a fydd yn gwella'r cyfleoedd i'r holl blant a phobl ifanc gyflawni eu potensial.<br><br>Bydd yr ysgol newydd yn darparu mynediad cyfartal at gwricwlwm eang a chytbwys, nad yw bob amser ar gael mewn ysgolion llai, gan gynnwys gofynion y Cwricwlwm newydd i Gymru, a gwell cynnig o ran chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol. |
| **Cymru o Gymunedau Cydlynus** | |
| Cymunedau deniadol, diogel a hyfyw sydd â chysylltiadau da. | Mae'r cynnig yn cynnwys ailddatblygu tir mewn lleoliad canolog yn y gymuned, a fydd yn gwella'r ardal.  Yn ystod y broses ddylunio, rhoddir ystyriaeth i gynnwys mannau i'r gymuned eu defnyddio, a fydd yn ei gwneud yn bosib cynnig cyfleoedd dysgu i oedolion, a chynnal cyfarfodydd a digwyddiadau bychain. Mae'n bosibl y bydd cyfleuster gofal plant dynodedig hefyd yn cael ei gynnwys.<br><br>Bydd hyn yn annog rhyngweithio cymdeithasol ac yn hyrwyddo undod ymhlith y gymuned.<br><br>Rydym yn deall pryderon cymuned sy'n wynebu colli eu hysgol leol neu ei gweld yn cael ei hailddatblygu, ynghyd ag unrhyw ddarpariaethau sy'n gysylltiedig â hi. Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar y Gymuned ar wahân, sy'n cynnwys mewnbwn gan yr ysgolion fel rhan o'r ymgynghoriad. |
| **Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu** | |
| Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n | Bydd cyfleusterau modern yn annog pobl i gymryd rhan mewn ystod eang o |

| Disgrifiad | Cyfraniad |
|---|---|
| annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden. | weithgareddau nad ydynt o bosibl ar gael yn y lleoliadau presennol.<br><br>Cydnabyddir na fydd y cynnig yn hyrwyddo'r Gymraeg yn uniongyrchol. Fodd bynnag, ni fydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg chwaith. Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg wedi'i ddatblygu ar wahân fel rhan o'r ymgynghoriad. |
| **Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang** | |
| Cenedl sy'n ystyried a fyddai gwneud unrhyw beth i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i les byd-eang. | Buddsoddi mewn technolegau 'gwyrdd' a dulliau adeiladu i ddiwallu targedau di-garbon net, a fydd yn cael effaith fyd-eang yn y pen draw. |

## F. CYFRANIAD AT DDATBLYGU CYNALIADWY

| Disgrifiad | Cyfraniad |
|---|---|
| **Hirdymor** | |
| Pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i fodloni anghenion hirdymor hefyd. | Mae'r cynnig yn ceisio gwella ansawdd y ddarpariaeth gynradd yn ardal Saltney drwy ddarparu cyfleusterau modern heb eu hail sy'n addas i'r diben ac yn briodol ar gyfer nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n byw yn yr ardal.<br><br>Bydd hyn yn cefnogi'r strategaeth genedlaethol i greu rhwydwaith ysgolion mwy gwydn a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol, a hynny gan gynyddu nifer y cyfleoedd addysgol sydd ar gael i ddisgyblion yn yr ardal a chyflawni uchelgais Llywodraeth Cymru i fod yn genedl ddi-garbon net erbyn 2050. |
| **Integreiddio** | |
| Ystyried sut y gall amcanion lles y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau lles, | Mae pob Amcan Lles yng Nghynllun Cyngor Sir y Fflint yn cyfrannu at bob un, neu sawl un o'r Nodau Lles, ac yn parhau i gael eu hadolygu. |

| Disgrifiad | Cyfraniad |
|---|---|
| eu hamcanion eraill, neu amcanion cyrff cyhoeddus eraill. | Amcan lles Sir y Fflint: Galluogi a Chefnogi ein Cymunedau sy'n Dysgu yw'r amcan sy'n cyd-fynd agosaf â'r cynnig hwn ac mae'r manylion i'w gweld yn yr adran nesaf. |
| **Cyfranogi** | |
| Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau lles, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal mae'r corff yn ei gwasanaethu. | Gwahoddir budd-ddeiliaid allweddol i helpu llunio canlyniad y cynnig. |
| **Cydweithio** | |
| Gweithio ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion lles. | Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam yn cynnwys asiantaethau allweddol sy'n cynrychioli llywodraeth leol, iechyd, yr heddlu, tân ac achub, addysg, yr amgylchedd a'r trydydd sector. Mae'r dull cydweithredol hwn wedi arwain at gyhoeddi 'Cynllun Lles 2023-2028' y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, sy'n amlinellu'r amcanion allweddol yn seiliedig ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.<br><br>Rydym yn cydweithio gyda sawl budd-ddeiliad mewnol ac allanol wrth i ni ddatblygu'r dyluniad ar gyfer ein hysgolion newydd. |
| **Atal** | |
| Sut y gallai gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. | Atal gostyngiad yn nifer y lleoedd gwag drwy dynnu ysgolion sydd heb eu llenwi, sydd ag adeiladau aneffeithlon, o'r rhwydwaith Catholig. Rhaid i ni gynllunio ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor. Mae hyn yn cynnwys addasu i newidiadau demograffig a sicrhau bod eiddo ein hysgol yn addas i'r diben yn y blynyddoedd i ddod. |

| Disgrifiad | Cyfraniad |
|---|---|
| | |

## G. ASESIAD O AMCANION LLES SIR Y FFLINT (CYNLLUN Y CYNGOR 2023-28)

Er mwyn bodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r Cyngor wedi pennu ei Amcanion Lles ei hun ar gyfer 2023/2028. Dewiswyd yr Amcanion Lles hyn fel y meysydd y mae'r Cyngor yn credu y gall wneud gwahaniaeth cadarnhaol ynddynt a'r cyfraniad mwyaf tuag at y nodau lles. Mae'r cynnig hwn yn cyd-fynd yn fwyaf penodol â'r Amcan Lles sy'n ymwneud â Galluogi a Chefnogi ein Cymunedau sy'n Dysgu, a'r effaith y bydd yn ei gael.

| Disgrifiad | Effaith Bosibl |
|---|---|
| • **Addysg a Sgiliau**<br>Galluogi a Chefnogi Cymunedau sy'n Dysgu<br>• **Ymgysylltiad a Chyflawniad Addysgol**<br>Darparu cyfleoedd dysgu amrywiol i gefnogi cyflawniad addysgol mewn ysgolion a chymunedau<br>• **Cyfleoedd Dysgu Digidol**<br>Cefnogi ymgysylltiad a chyflawniad addysgol drwy wneud defnydd rhagweithiol o gyfryngau digidol hygyrch<br>• **Amgylcheddau Dysgu**<br>Creu amgylcheddau dysgu uchelgeisiol a hyblyg<br>• **Rhwydweithiau Cymuned sy'n Dysgu**<br>Cefnogi ein cymunedau sy'n dysgu i ymgysylltu a chyflawni drwy waith partneriaeth helaeth a ategir gan arferion diogelu cyffredin<br>• **Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA)**<br>Gweithio gydag ysgolion a phartneriaid i gefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050<br>• **Lles** | Mae'r cynnig yn cyfrannu at barhau i ddarparu strategaeth hirdymor ar gyfer buddsoddiad cyfalaf mewn adeiladau ysgolion er mwyn gwella ansawdd yr adeiladau hynny, gan hyrwyddo cynaliadwyedd a lleihau'r gwaith cynnal a chadw sy'n aros i gael ei wneud.<br>Mae'r cynnig rhagweithiol hwn yn gostwng nifer y lleoedd gwag, a all arwain at ysgolion sy'n cael eu hariannu'n well a rhyddhau adnoddau i'w buddsoddi mewn meysydd eraill. Yn y pen draw, bydd hyn o fudd i nifer o blant ac yn gwneud y ddarpariaeth gyffredinol yn fwy cynaliadwy.<br>Darparwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar wahân gyda'r dogfennau Ymgynghori. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu rhannu gyda Fforwm CSCA.<br>Gall gwell amgylcheddau dysgu wella lles disgyblion a staff fel ei gilydd, a gellir ymgorffori'r technolegau diweddaraf yn y |

| Disgrifiad | Effaith Bosibl |
|---|---|
| Gweithio gydag ysgolion a phartneriaid i gynnig cyfleoedd i blant, pobl ifanc a'r gweithlu addysg gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cefnogi eu hiechyd a'u lles emosiynol. | dyluniad, gan ddarparu offer newydd, a all arwain at wella'r profiad dysgu. |

## H. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB A HAWLIAU DYNOL

| Nodwedd Warchodedig | Effaith Bosibl | Eglurhad a Chamau Lliniaru |
|---|---|---|
| Oedran | Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol | Ni fydd y cynnig yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un ar sail oedran. Mae'r cynnig yn ceisio darparu gwell cyfleoedd addysgol i bawb. |
| Ailbennu rhywedd | Effaith gadarnhaol | Rhaid i ysgolion yng Nghymru ddarparu toiledau ar wahân yn ôl rhyw ar gyfer disgyblion dros 8 oed, ond mae ganddynt hyblygrwydd i gynnig toiledau a mannau newid sy'n niwtral o ran rhywedd hefyd er mwyn eu gwneud yn fwy diogel, cyfforddus a chynhwysol i'r holl ddysgwyr, staff ac ymwelwyr. Mae'r cynnig hwn yn rhoi cyfle i ymgorffori cyfleusterau addas ar gyfer unigolion o unrhyw rywedd yn y broses ddylunio. |
| Anabledd | Effaith gadarnhaol | Bydd yr ysgol newydd arfaethedig yn cydymffurfio'n llwyr â deddfwriaeth sy'n ymwneud â chydraddoldeb a gwahaniaethu ar sail anabledd. Efallai nad oes gan yr ysgolion presennol amgylcheddau safonol cyfredol ar gyfer disgyblion.<br><br>Rydym yn cydnabod bod gan nifer o blant neu bobl ifanc ag ADY anabledd. At ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010, mae anabledd yn un rhan o'r diffiniad o ADY, a gall y rhan arall (anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o'r unigolion eraill o'r un oedran) gyfrif fel anabledd mewn rhai achosion. |

| Nodwedd Warchodedig | Effaith Bosibl | Eglurhad a Chamau Lliniaru |
|---|---|---|
| | | Natur unrhyw gynnig sylweddol i ad-drefnu ysgol yw y bydd pob disgybl yn profi newid. Bydd y Cyngor yn ceisio paratoi'r plentyn a'r oedolion sy'n gweithio gyda'r plentyn yn y ffordd orau bosibl i leihau effaith y newid. Bydd anghenion yn cael eu hadolygu yn unol â chyfrifoldebau statudol y Cyngor, a'u haddasu ar gyfer dysgwyr unigol. Rydym yn cydnabod bod gan y ddwy ysgol nifer uchel o ddisgyblion ag ADY, ond mae gan y Cyngor hanes blaenorol cryf o gefnogi dysgwyr drwy brosesau adleoli i safleoedd newydd, gan gynnwys cyfnodau pontio llwyddiannus i adeiladau newydd. Mae hyn wedi golygu mwy o gefnogaeth i ysgolion a'r holl ddysgwyr, gyda mesurau penodol fel ymweliadau amser tawel i helpu disgyblion ag ADY addasu'n ddidrafferth.<br><br>Wrth adeiladu ysgol newydd, mae cyfle i wella cyfleusterau ar gyfer disgyblion ag ADY er mwyn cynnwys:<br><br>• Ystafelloedd addysgu ac ymyrraeth i grwpiau bychain<br>• Ystafelloedd tawel wedi'u dylunio i reoli emosiynau<br>• Mannau i reoli'r synhwyrau heb fawr o ysgogiad<br>• Cyfleusterau hylendid a hygyrchedd arbenigol<br>• Coridorau lletach, gwell acwsteg a chynlluniau llawr wedi'u dylunio'n ystyriol<br>• Mannau synhwyraidd a lles yn yr awyr agored<br>• Ardaloedd seibiant sy'n helpu ymdawelu a chynnwys unigolion<br><br>Safbwynt y Cyngor yw y byddai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn cefnogaeth lawn mewn unrhyw ysgolion amgen. |

| Nodwedd Warchodedig | Effaith Bosibl | Eglurhad a Chamau Lliniaru |
|---|---|---|
| | | Bydd sefydlu adeilad ysgol modern yn cael effaith gadarnhaol ar blant ag ADY ac anableddau yn yr hirdymor.<br><br>Darllenwch yr Asesiad o'r Effaith ar blant ag ADY, sy'n ddogfen ar wahân. |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol | Bydd staff yn cael eu cefnogi gan bolisïau priodol sydd ar waith i sicrhau eu bod yn cael eu trin yn deg drwy gydol y broses. |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol | Bydd staff yn cael eu cefnogi gan bolisïau priodol sydd ar waith i sicrhau eu bod yn cael eu trin yn deg drwy gydol y broses. |
| Hil | Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol | Ni fydd y cynnig yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un ar sail hil. Mae'r cynnig yn ceisio darparu gwell cyfleoedd addysgol i bawb. |
| Crefydd a Chred | Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol | Ni fydd y cynnig yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw berson ar sail crefydd a chred. Mae'r cynnig yn ceisio darparu gwell cyfleoedd addysgol i bawb. |
| Rhyw | Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol | Ni fydd y cynnig yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un ar sail rhyw. Mae'r cynnig yn ceisio darparu gwell cyfleoedd addysgol i bawb. |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol | Ni fydd y cynnig yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw berson ar sail cyfeiriadedd rhywiol. Mae'r cynnig yn ceisio darparu gwell cyfleoedd addysgol i bawb. |

## I. ASESIAD O'R EFFAITH AR YR AMGYLCHEDD A BIOAMRYWIAETH

| | **Effaith Bosibl** | **Eglurhad a Chamau Lliniaru** |
|---|---|---|
| Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr | Effeithiau Cadarnhaol a Negyddol | Bydd disodli adeiladau aneffeithlon â chyfleusterau di-garbon net yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.<br><br>Negyddol - cydnabyddir y bydd y cynnig yn arwain at dynnu un ysgol o'r rhwydwaith a bydd rhaid i blant a phobl ifanc sy'n mynychu Ysgol Gynradd Saltney Ferry deithio i'r safle newydd ar dir Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood. Bydd hyn yn golygu bod y plant a'r bobl ifanc hyn yn gorfod teithio'n bellach i'r ysgol, a allai arwain at fwy o draffig. |
| Cynllunio ar gyfer newid hinsawdd yn y dyfodol | Effaith gadarnhaol | Disodli adeiladau aneffeithlon â chyfleusterau di-garbon net. Mae gan y Cyngor hanes blaenorol da o ddarparu ysgolion newydd sy'n effeithlon o ran ynni, ac mae rhoi targedau di-garbon net LlC ar waith mewn 2 ysgol newydd wedi cynyddu'r dysgu hwnnw drwy brofiad, fel y gallwn gynllunio'n effeithiol ar gyfer newid hinsawdd yn y dyfodol. |
| Gwarchod dyfroedd arfordirol a mewndirol | Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol | |
| Llygredd: aer/dŵr/pridd/sŵn a dirgryniadau/allyriadau | Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol | |
| Gwella bioamrywiaeth | Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol | Gallai'r effaith fod yn gadarnhaol gan y gellid defnyddio'r tir lle cynigir cau adeiladau'r ysgol ar gyfer gwella bioamrywiaeth yn yr ardal. Fodd bynnag, nid oes unrhyw benderfyniad |

| | Effaith Bosibl | Eglurhad a Chamau Lliniaru |
|---|---|---|
| | | wedi'i wneud o ran beth fyddai'n digwydd i unrhyw dir. |
| Annog defnyddio adnoddau'n effeithlon (ynni/dŵr/deunyddiau a mwynau) | Disgwylir effaith gadarnhaol | Mae cael gwared ag adeiladau aneffeithlon o ran ynni o'r rhwydwaith ysgolion yn lleihau effaith newid hinsawdd pellach.<br><br>Bydd adeiladau di-garbon net newydd yn cynnwys mesurau ynni gwyrdd, a allai gynnwys ynni solar a phympiau gwres o'r awyr, sy'n eu gwneud yn fwy effeithlon.<br><br>Gyda thri adeilad ysgol di-garbon net newydd wedi'u hagor eleni yn Sir y Fflint, rydym wedi gweithio gyda Chontractwyr sy'n defnyddio technegau dylunio ac adeiladu arloesol i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau. |
| Lleihau faint o wastraff a gynhyrchir ac ailgylchu, adfer ac ailddefnyddio mwy | Rhagwelir effaith gadarnhaol | Disodli adeiladau aneffeithlon â chyfleusterau di-garbon net. Yn ystod y cam adeiladu a thu hwnt, mae gan gontractwyr dargedau i leihau gwastraff ac ailgylchu, adfer ac ail-ddefnyddio mwy. |
| Lleihau'r angen i deithio a hyrwyddo dulliau cludiant cynaliadwy | Effeithiau cadarnhaol a negyddol | Cadarnhaol - Bydd yr ysgol newydd arfaethedig yn edrych ar lwybrau cerdded diogel i'r ysgol ac yn hyrwyddo cerdded, beicio a dulliau cludiant ar wahân i geir unigol.<br><br>Negyddol - cydnabyddir y bydd y cynnig yn arwain at gael gwared ag un ysgol o'r rhwydwaith. Bydd rhaid i blant a phobl ifanc sy'n mynychu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ar hyn o bryd deithio i'r safle newydd ar dir Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood. Bydd hyn yn golygu bod |

| | Effaith Bosibl | Eglurhad a Chamau Lliniaru |
|---|---|---|
| | | rhaid i'r plant a'r bobl ifanc hyn deithio'n bellach i'r ysgol. |
| Gwella'r amgylchedd diriaethol: tai, gwasanaethau cyhoeddus, mynediad at fannau gwyrdd a'u hansawdd | Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol | Bydd gan yr ysgol newydd arfaethedig ddyluniad modern sy'n cyd-fynd â'r ardal gyfagos pan fo hynny'n bosibl.<br><br>Mae pwysigrwydd cynnal ysgolion o fewn eu cymunedau lleol wedi ymddangos fel elfen gref yn ystod y cyfnod Ymgynghori a Gwrthwynebu, gydag unigolion yn honni eu bod yn ganolfannau cymunedol. Cydnabyddir fod gan ysgolion swyddogaeth bwysig yn eu cymunedau, gyda'r posibilrwydd o agor eu mannau gwyrdd a'u cyfleusterau. Gydag unrhyw adeilad ysgol newydd, mae cyfle i wella mynediad Cymunedol mewn mannau sydd wedi'u dylunio'n benodol ar gyfer gwaith amlasiantaeth a mynediad at gaeau chwaraeon.<br><br>Fel y nodir uchod, gellid defnyddio tir lle cynigir cau adeiladau ysgol er mwyn gwella bioamrywiaeth yr ardal a chreu mwy o fannau gwyrdd o bosibl. Fodd bynnag, nid oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud o ran beth fyddai'n digwydd i unrhyw dir. |
| Gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol a'r dreftadaeth bensaernïol, archeolegol a diwylliannol | Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol | Byddai'r cynnig yn arwain at gael gwared ag Ysgol Saltney Ferry, a allai fod ag arwyddocâd hanesyddol, pensaernïol a diwylliannol.<br><br>Rhaid asesu'r achos dros eu cadw yn feirniadol yn erbyn safonau addysgol, cynaliadwyedd ariannol a blaenoriaethau strategol hefyd. Mae'r Cyngor o'r farn y bydd y cynnig hwn yn |

| | Effaith Bosibl | Eglurhad a Chamau Lliniaru |
|---|---|---|
| | | moderneiddio ac yn sicrhau dyfodol addysg yn ardal Saltney ar gyfer dyfodol cynaliadwy. |

## J. ASESIAD O'R EFFAITH AR GONFENSIWN Y CENHEDLOEDD UNEDIG AR HAWLIAU'R PLENTYN

| | Effaith Bosibl | Eglurhad a Chamau Lliniaru |
|---|---|---|
| Dim gwahaniaethu | Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol | |
| Budd pennaf y plentyn | Rhagwelir effaith gadarnhaol | Cadarnhaol - mae'r cynnig yn darparu amgylchedd dysgu modern sy'n ysbrydoli (drwy fod yn ddi-garbon net) a fydd yn gwella profiad addysg disgyblion a lleoliad gwaith staff.<br><br>Yn ogystal â hynny, mae'n debygol y bydd y cynnig yn darparu mannau gwyrdd megis caeau chwarae ac ysgol goedwig a fydd yn hyrwyddo lles corfforol a meddyliol.<br><br>Hefyd, bydd gostwng nifer y lleoedd gwag yn lleihau gwariant refeniw aneffeithlon y gellir ei gyfeirio'n effeithiol tuag at ddysgu ac addysgu.<br><br>Mae'r cynnig yn ceisio darparu addysg o'r radd flaenaf mewn amgylchedd dysgu modern lle gall plant a phobl ifanc ffynnu a datblygu i wynebu heriau'r byd. |
| Hawl i oroesi a datblygu | Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol | |
| Hawl i gael llais | Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol, Erthygl 12 Confensiwn y | Ymgynghorwyd â phlant a phobl ifanc yn yr holl ysgolion yr effeithir arnynt yn uniongyrchol, a'r rhai sy'n rhan o Fforwm Sir y Fflint Ifanc, gan |

| | Effaith Bosibl | Eglurhad a Chamau Lliniaru |
|---|---|---|
| | Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP):<br><br>'Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn am yr hyn a ddylai ddigwydd pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.' | ddefnyddio gwybodaeth a oedd yn addas i'w grŵp oedran.<br><br>Pe bai'r cynnig yn cael ei roi ar waith, byddai digwyddiadau'n cael eu cynnal trwy gydol y broses adeiladu er mwyn rhoi gwybod i'r plant beth sy'n digwydd, goblygiadau di-garbon net y gwaith adeiladu, a beth mae'n ei olygu ar gyfer eu haddysg. Bydd y plant a'r bobl ifanc yn cael eu hannog i ryngweithio lle bo modd a chyfrannu at ganlyniadau posibl. |

## K. ASESIAD O'R EFFAITH AR IECHYD

| Nodwedd Warchodedig | Effaith Bosibl | Camau Lliniaru |
|---|---|---|
| Ffordd o fyw | Rhagwelir effeithiau Cadarnhaol a Negyddol | Cadarnhaol - Bydd y cynnig yn hyrwyddo Mesurau Teithio Llesol i annog plant a phobl ifanc, yn ogystal â rhieni/gofalwyr, i ddefnyddio ffyrdd mwy amgylcheddol gyfeillgar i deithio i/o'r ysgol (er enghraifft, cerdded a beicio yn hytrach nag un disgybl mewn car).<br><br>Yn ogystal, byddai'r cyfleusterau modern a fyddai'n cael eu hadeiladu'n cefnogi gweithgareddau ysgol, megis chwaraeon a drama, er mwyn annog cyfranogiad gydag eraill. Byddant hefyd yn darparu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol megis digwyddiadau cymunedol ac addysg i oedolion.<br><br>Negyddol - Drwy gael gwared ag ysgol o'i chymuned, cydnabyddir y bydd rhaid i blant a rhieni/gofalwyr deithio'n bellach i gael addysg. Felly, gall teithio i'r ysgol |

| Nodwedd Warchodedig | Effaith Bosibl | Camau Lliniaru |
|---|---|---|
| | | agosaf nesaf arwain at lai o ddisgyblion yn cerdded ac yn beicio i'r ysgol, a mwy o deithio mewn car neu ar fws.<br><br>Mae teuluoedd wedi amlinellu'n glir yn yr ymgynghoriad cyntaf yr heriau y byddai hyn yn ei gyflwyno i ddisgyblion iau, y rhai hynny gydag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai hynny heb fynediad at gar.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon hyn. Er bod pellteroedd cerdded statudol yn parhau i fod o fewn y cyfyngiadau gofynnol, mae'r Cyngor yn nodi nad yw'r trothwyon hyn yn adlewyrchu profiad bywyd yr holl deuluoedd. Am y rheswm hwn:<br>• Bydd presenoldeb a phrydlondeb yn cael ei fonitro'n agos<br>• Bydd teuluoedd sy'n wynebu caledi neu rwystrau'n cael eu clustnodi'n gynnar<br>• Bydd cefnogaeth yn cael ei chynnig o fewn fframweithiau polisi<br>• Bydd fformiwla ariannu'r ysgol newydd, gan gynnwys cyllid amddifadedd, yn parhau i ddarparu cefnogaeth wedi'i thargedu<br><br>Yn yr hirdymor, nod yr ysgol newydd yw lleihau anghydraddoldeb drwy sicrhau bod pob disgybl - waeth beth fo'i gefndir economaidd-gymdeithasol - yn cael mynediad at gyfleusterau o safon uchel, ymarfer cynhwysol a chyfleoedd cyfoethogi. |
| Dylanwad Cymdeithasol a | Rhagwelir effeithiau cadarnhaol a niwtral | Cadarnhaol - Bydd rhagor o ddarpariaeth gymunedol fodern yn Saltney yn gwella |

| Nodwedd Warchodedig | Effaith Bosibl | Camau Lliniaru |
|---|---|---|
| Chymunedol ar Iechyd | | rhyngweithiadau lleol a gallai leihau teimladau o unigrwydd, a fyddai yn ei dro yn hwb i les meddyliol pobl.<br><br>Niwtral – Mae Saltney Ferry yn cael ei ddisgrifio fel 'Canolbwynt Cymunedol', ond ei brif swyddogaeth yw darparu addysg o ansawdd uchel, ac nid yw'r ysgol yn cael ei defnyddio'n rheolaidd gan unrhyw grwpiau Cymunedol. Mae hunaniaeth gymunedol yn bwysig, ond gellir ei chadw a'i chryfhau drwy gyd-ddefnyddio mannau eraill a rennir.<br><br>Yn ogystal â hynny, bydd yr adeilad newydd yn cynnwys man cymunedol pwrpasol gyda mynediad annibynnol, sy'n rhywbeth na all yr un o'r ddwy ysgol ei gynnig ar hyn o bryd. Bydd hyn yn galluogi amrywiaeth ehangach a mwy cynaliadwy o weithgareddau cymunedol a allai gael eu llywio gan iechyd. Darllenwch yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, sy'n ddogfen ar wahân fel rhan o'r pecyn ymgynghori hwn. |
| Lles Meddyliol | Rhagwelir effeithiau cadarnhaol a negyddol | Cadarnhaol - Bydd yr amgylchedd dysgu newydd modern ac ysbrydoledig yn gwella lles meddyliol disgyblion a staff. Mae hyn hefyd yn wir am y mynediad at gaeau chwarae ac ardaloedd natur a gaiff eu datblygu.<br><br>Negyddol - Ar gyfer y disgyblion hynny a fydd yn gorfod trosglwyddo i ysgol arall, gallai hyn fod yn heriol ac achosi pryderon tymor byr mewn perthynas â symud. Roedd gwrthwynebiadau yn ystod yr ymgynghoriad cyntaf yn |

| Nodwedd Warchodedig | Effaith Bosibl | Camau Lliniaru |
|---|---|---|
| | | canolbwyntio'n bennaf ar fregusrwydd disgyblion ag ADY.<br><br>Lliniaru - Bydd pob disgybl yn cael cynnig cefnogaeth bontio a bugeiliol er mwyn lleihau unrhyw bryderon mewn perthynas â phontio i ysgol newydd.<br><br>Mae gan y Cyngor brofiad helaeth o gefnogi disgyblion ADY drwy brosesau ad-drefnu ysgolion. Mewn prosiectau blaenorol, bu i gynlluniau pontio personol alluogi dysgwyr diamddiffyn i addasu'n ddiogel ac yn hyderus. Os bydd y cynnig hwn yn mynd yn ei flaen, byddai disgyblion ag ADY yn cael:<br><br>• Cynlluniau pontio personol yn seiliedig ar eu hanghenion unigol<br>• Mwy o ymweliadau ymgyfarwyddo yn ystod y cyfnod pontio<br>• Cefnogaeth weledol, straeon cymdeithasol ac esboniadau sy'n addas i ddisgyblion<br>• Cyfleoedd i ddisgyblion gyfarfod staff newydd ymlaen llaw<br>• Cyfnodau pontio graddol, gan gynyddu'r amser a dreulir ar y safle'n raddol pan fo angen<br>• Cyswllt agos rhwng Cydlynwyr ADY, athrawon dosbarth, teuluoedd ac asiantaethau allanol |
| Amodau Byw / Amgylcheddol sy'n effeithio ar Iechyd | Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol | |
| Amodau economaidd sy'n effeithio ar Iechyd | Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol | |

| Nodwedd Warchodedig | Effaith Bosibl | Camau Lliniaru |
|---|---|---|
| Mynediad at wasanaethau, a'u hansawdd | Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol | Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn Sir y Fflint yn cael mynediad at addysg o ansawdd, a bod adeiladau ein hysgolion yn addas i'r diben, gan ddarparu'r cyfleoedd gorau i'r disgyblion.<br><br>Cafwyd gwrthwynebiad cryf yn ystod y Cyfnod Ymgynghori a Gwrthwynebu cyntaf y gallai colli mynediad at ethos ysgol fach yn Saltney Ferry fod yn anfanteisiol. Er ein bod yn gwerthfawrogi'r pryderon hyn, mae'n bwysig cydnabod bod nifer o ysgolion mwy yn meithrin amgylcheddau cynhwysol yn gyson, lle mae perthnasoedd cryf yn ffynnu a lle caiff anghenion unigol eu bodloni'n effeithiol. Nid dim ond mewn ysgolion bach y ceir y rhinweddau hyn, maent yn nodwedd o arfer dda, waeth beth fo maint yr ysgol. |
| Sicrhau bod oedolion a phlant yn cael eu diogelu | Rhagwelir effaith gadarnhaol | Pe bai'r cynnig yn cael ei roi ar waith, byddai unrhyw gynllun yn cynnwys ffens ddiogelwch er mwyn sicrhau mai dim ond pobl sydd wedi cael caniatâd gan yr ysgol fydd yn gallu cael mynediad at yr ardaloedd lle mae plant a phobl ifanc yn dysgu ac yn chwarae.<br><br>Mae gofynion diogelu modern yn sicrhau y bydd gan unrhyw adeiladau newydd ddrysau a reolir, a dim ond y bobl hynny sydd wedi cael cerdyn diogelwch priodol fydd yn gallu gweithredu'r drysau hyn.<br><br>Yn ystod yr ymgynghoriad cyntaf, mynegwyd nifer o bryderon diogelu hefyd ynglŷn â'r ffaith y byddai'n rhaid i blant deithio'n bellach, yn enwedig o Saltney Ferry i safle'r ysgol newydd, ac fe |

| Nodwedd Warchodedig | Effaith Bosibl | Camau Lliniaru |
| --- | --- | --- |
| | | soniwyd sawl gwaith am lwybrau cerdded prysur a pheryglus. Mae’r pryderon hyn yn ddilys, ac mae adolygiad cynhwysfawr o’r seilwaith ffyrdd presennol wedi cael ei gynnal fel rhan o asesiad technegol ffurfiol o lwybrau cerdded diogel pe bai’r cynnig yn mynd yn ei flaen. Bydd yr astudiaeth fanwl hon yn cynnwys:<br>• Arolygon o lefelau a chyflymder traffig yn ystod oriau ysgol prysur<br>• Arolygon o oleuadau, a fydd yn nodi mannau tywyll neu heb oleuadau digonol<br>• Mesuriadau o led y droedffordd ac asesiadau o’r arwyneb<br>• Ystyriaethau teithio tymhorol/yn ystod y gaeaf<br>• Nodi mannau prysur, materion o ran gwelededd neu heriau o ran hygyrchedd<br>• Ystyriaeth o ddisgyblion ag ADY neu anghenion symudedd<br>• Argymhellion peirianyddol megis gwell croesfannau, arwyddion cliriach, mesurau gostwng cyflymder, neu welliannau i’r droedffordd.<br><br>Bydd y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â’r adran Briffyrdd i roi unrhyw gamau lliniaru angenrheidiol a nodwyd drwy’r broses hon ar waith.<br><br>Hefyd, bydd cymhwysedd ar gyfer cludiant o’r cartref i’r ysgol yn cael ei asesu yn unol â pholisi lleol i sicrhau tegwch a chysondeb. I gefnogi’r broses hon bydd arolygon cludiant llawn yn cael eu cynnal i archwilio faint o le parcio sydd ar gael, mynediad i’r safle, a llwybrau teithio i unrhyw safle newydd. Mae’r asesiadau hyn yn hanfodol i |

| Nodwedd Warchodedig | Effaith Bosibl | Camau Lliniaru |
|---|---|---|
| | | sicrhau, pe byddai'r cynnig yn symud yn ei flaen, fod trefniadau priodol a diogel ar waith ar gyfer yr holl ddisgyblion a'r teuluoedd. |
| Galluogi mwy o bobl i fyw'n dda ac yn annibynnol gartref | Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol | |
| Ffactorau macro-economaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd | Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol | |

## L. ASESIAD O'R EFFAITH AR DLODI

| Nodwedd Warchodedig | Effaith Bosibl | Camau Lliniaru |
|---|---|---|
| Lleihau tlodi tanwydd | Rhagwelir effeithiau cadarnhaol a negyddol | Gallai hyrwyddo Mesurau Teithio Llesol arwain at ragor o blant a phobl ifanc yn cerdded neu feicio i/o'r ysgol, gan leihau'r niferoedd sydd angen defnyddio ceir.<br><br>Ond yn dilyn y sylwadau a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori a gwrthwynebu cyntaf, cydnabyddir hefyd y bydd rhaid i rai teuluoedd a staff, o Saltney Ferry yn benodol, deithio'n bellach i'w hysgol a'u man gwaith newydd, a allai gael effaith ariannol arnynt. Bydd cymhwysedd ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol yn cael ei asesu yn unol â pholisi lleol i sicrhau tegwch a chysondeb. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Efallai y bydd yna gyfle i rannu ceir a threfnu bysus cerdded hefyd.<br><br>Bydd teuluoedd sy'n wynebu caledi neu rwystrau yn cael eu clustnodi'n gynnar, a bydd cefnogaeth yn cael ei chynnig o fewn fframweithiau'r polisi.<br><br>Mae cyfartaledd y disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim yn y ddwy ysgol yn uwch na chyfartaledd y Sir, felly bydd fformiwla ariannu'r ysgol newydd, gan gynnwys cyllid amddifadedd, yn parhau i ddarparu cefnogaeth wedi'i thargedu.<br><br>Cadarnhaol - Anogir partneriaid adeiladu i ddefnyddio cyflenwyr ac is-gontractwyr lleol i gwblhau unrhyw waith. |
| Gwella cyfleoedd gwaith lleol | Rhagwelir effeithiau cadarnhaol a negyddol | Cadarnhaol - Anogir partneriaid adeiladu i ddefnyddio cyflenwyr ac is-gontractwyr lleol i gwblhau unrhyw waith.<br><br>Negyddol - gallai tynnu ysgol o'r rhwydwaith leihau cyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol, ond mae cyfle i gadw staff medrus a phrofiadol sydd wedi'u dadleoli, a gallai'r ysgol newydd gynnig cyfleoedd newydd yn ardal Saltney.<br><br>Lliniaru - Bydd lefel uchel o gefnogaeth AD yn cael ei darparu i staff, fel gydag unrhyw achos o gau ysgol, er mwyn gallu archwilio'r holl ddewisiadau. |

| | | |
|---|---|---|
| Cynyddu cyfleoedd am hyfforddeiaethau a phrentisiaethau | Rhagwelir effaith gadarnhaol | Ystyrir darpariaeth fel rhan o'r cynllun buddion cymunedol gyda'r adeiladwr er mwyn darparu cyfleoedd ar gyfer hyfforddeiaethau a phrentisiaethau.<br><br>Gall ysgol newydd hefyd ddenu cyfleoedd yn yr ardal hon ar gyfer hyfforddiant i athrawon a chynllun Prentisiaeth Fodern y Cyngor. |
| Diogelu pobl rhag tlodi | Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol | Mae'r holl ysgolion yn darparu prydau ysgol am ddim ar gyfer pob dysgwr yn y sector Cynradd, a gallant gysylltu teuluoedd gyda gwasanaethau cymorth a darparu cyfleoedd ar gyfer gofal plant sy'n fwy fforddiadwy.<br><br>Gweler Tlodi Tanwydd uchod. |
| Gwella cymwysterau a sgiliau | Rhagwelir effaith gadarnhaol | Mae'r cynnig yn ceisio darparu addysg o'r radd flaenaf gan gynnig cwricwlwm cyfoes eang a chytbwys i'r disgyblion wella eu canlyniadau addysgol yn y pen draw.<br><br>Mewn amgylchedd ysgol fwy, gallai staff gael gwell cyfleoedd a chyllid ar gyfer eu datblygiad proffesiynol.<br><br>Bydd y bobl a ddefnyddir yn ystod y broses adeiladu'n cael cyfleoedd i ddefnyddio eu sgiliau, a, lle bo modd, ennill cymwysterau pellach wrth gwblhau eu gwaith. |

## M. HYRWYDDO EFFAITH GADARNHAOL

Er na ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol mewn rhai meysydd, mae sawl system gefnogaeth ar waith i helpu pobl a allai gael eu heffeithio gan unrhyw newidiadau posibl. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol (ond nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr):

- Bydd unrhyw ddisgybl, rhiant/gofalwr, aelod staff neu lywodraethwr â nodwedd warchodedig yn cael cefnogaeth briodol pe bai'r cynnig yn cael ei roi ar waith.
- Bydd pob disgybl, waeth beth fo'u hoedran, rhyw, anabledd, hil, cred grefyddol nag iaith gyntaf, yn cael cynnig cefnogaeth bontio a bugeiliol, os yw'r cynnig yn effeithio arnynt.
- Bydd y Cyngor yn cymryd pob cam ymarferol i amharu cyn lleied ag sy'n bosibl ar bob disgybl, gan roi ystyriaeth benodol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Bydd anghenion yn cael eu hadolygu yn unol â chyfrifoldebau statudol y Cyngor, a'u haddasu ar gyfer dysgwyr unigol. Darllenwch y ddogfen ar wahân ar Effeithiau ar ADY.
- Un o fanteision ysgol fwy yw y gall gynnig darpariaeth ADY well yn sgil mwy o gyllid a'r gallu i gyflogi staff mwy arbenigol.
- Mae perfformiad yn ôl rhyw yn cael ei fonitro ar lefel ysgol a bydd bylchau yn cael eu monitro drwy'r Cynllun Gweithredu gan yr Ysgol.
- Gyda nifer o wasanaethau rhyngberthynol arbenigol, mae Gwasanaeth Cynhwysiant y Cyngor yn sicrhau bod ei ddyletswydd dan God Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2001 yn cael ei chyflawni. Mae'r gwasanaethau'n cynnwys:
    - Gwasanaeth Seicoleg Addysg.
    - Gwasanaethau Cwnsela Pobl Ifanc.
    - Gwasanaeth Synhwyraidd.
    - Gwasanaeth Saesneg fel Iaith Ychwanegol / Sipsiwn a Theithwyr.
    - Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol.
    - Gwasanaeth Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu.
    - Gwasanaeth Lles Addysg.
    - Gwasanaeth Cefnogi Ymddygiad.
    - Gwasanaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol; a
    - Gwasanaeth Cyflwr ar y Sbectrwm Awtistig.
- Mae'r Cyngor yn gweithio o fewn Deddf Cydraddoldeb 2010 i sicrhau adeiladau ysgol hygyrch ar gyfer ei ddisgyblion, rhieni a gofalwyr, staff, a llywodraethwyr. Caiff disgybl ag anabledd ei asesu ar sail unigol ac mae cyllideb ar gael i addasu ysgolion er mwyn i ddisgyblion gael mynediad at y cwricwlwm. Fodd bynnag, rhaid i addasiadau i adeiladau ddiwallu anghenion disgyblion sydd ag anableddau, a rhaid iddynt fod yn gymesur ac yn rhesymol o fewn y gyllideb sydd ar gael.

- Bydd y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswydd statudol i fonitro darpariaeth a chyflawniad disgyblion ac ysgolion mewn perthynas â'r maes llafur Addysg Grefyddol y cytunwyd arno.
- Gall rhieni/gofalwyr fynegi eu dewis i geisio darpariaeth addysgol amgen i'w plentyn. Mae ysgolion cynradd enwadol ac anenwadol ar gael yn ardal Sir y Fflint pe bai disgyblion sy'n cael eu gwasgaru'n dymuno cael mynediad at ddarpariaeth addysg amgen.
- Mae Cyngor Sir y Fflint wrthi'n datblygu Polisi Traws ar gyfer ysgolion. Bydd hyfforddiant yn cael ei gynnig i ysgolion.
- Mae gan yr ysgolion eu datganiadau cydraddoldeb ac amrywiaeth eu hunain, eu cynllun Cydraddoldeb Strategol eu hunain, yn ogystal â pholisïau cyflogaeth i gefnogi staff trwy'r rhaglen newid. Dylai pob ysgol fod â'i hethos ei hun o ran hyrwyddo cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu, a hyrwyddo cydberthnasoedd da.
- Bydd gan ddisgyblion a staff ag anableddau well mynediad at gyfleusterau ysgol.
- Bydd gan ddisgyblion a staff traws fynediad at doiledau rhywedd-niwtral.
- Mae pob ysgol yn cael eu harolygu drwy Estyn.
- Cefnogaeth ar gyfer plant y Lluoedd Arfog - ni chafwyd unrhyw dystiolaeth yn ystod yr ymgynghoriad y byddai unrhyw effaith negyddol na chadarnhaol yn y maes hwn. Ond bydd Cyngor Sir y Fflint yn sicrhau ei fod yn ceisio cyngor gan Swyddog Cyswllt Rhanbarthol y Lluoedd Arfog ar y cynigion.

## N. CASGLIAD

Mae effeithiau cadarnhaol y cynnig ar ddisgyblion, staff a'r gymuned leol yn cynnig rheswm cymhellol i'r Cyngor ystyried y cynnig fel prosiect hyfyw. Bydd disodli'r stoc ysgolion bresennol gydag adeiladau modern di-garbon net yn lleihau dibyniaeth ar danwyddau ffosil ac yn cynyddu gwytnwch y Cyngor yn erbyn hinsawdd sy'n newid yn dragwyddol.

Mae'r cynnig yn parhau â'r buddsoddiad drwy'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy i wella cyflwr adeiladau ac amgylcheddau dysgu ysgolion i blant a phobl ifanc.

Nid yw pob effaith yn gadarnhaol, a chydnabyddir fod yna effeithiau negyddol i'r cynnig hefyd, yn bennaf cael gwared ar Ysgol Gynradd Saltney Ferry a'i gwerth yn y Gymuned, yn ogystal â phryderon diogelwch am bellter a theithio i ysgol newydd. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn gwneud ei orau i liniaru, lleihau neu ddileu eu heffeithiau drwy roi polisïau, gweithdrefnau a systemau cadarn ar waith.

Lle mae rhoi'r cynnig ar waith yn arwain at effaith negyddol nad yw wedi'i nodi eisoes, bydd y Cyngor yn cymryd pob cam ymarferol i ddarparu'r gefnogaeth briodol i unigolion a/neu grwpiau yr effeithir arnynt.